Independent
Prisoner Complaint
Investigations




# Ydych chi'n anhapus gyda'r ffordd roedd y carchar wedi edrych ar eich cwyn?

## Byddai'r Independent Prisoner Complaint Investigations yn gallu eich helpu chi

Fersiwn Hawdd ei Ddeall


# Gwybodaeth am yr Independent Prisoner Complaint Investigations



Mae'r Independent Prisoner Complaint Investigations yn annibynnol. Felly, dydyn ni ddim yn gweithio i'r Gwasanaeth Carchardai nac i'r HMPPS.



Mae'r Independent Prisoner Complaint Investigations yn dod o dan Reol 39. Felly, fydd y llythyrau byddwch chi'n eu hanfon atom ni ddim yn cael eu darllen gan y carchar.



Fyddwch chi ddim yn mynd i helynt am ysgrifennu atom ni. Os byddwch chi, rhowch wybod i ni. Byddwn ni'n ymchwilio i'r mater.




Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i’r gŵyn ein cyrraedd ni os gallwn ni ymchwilio iddi hi.



Gallwn ni hefyd edrych ar bethau os na fydd y carchar ddim yn ymateb i’ch cwyn o fewn 6 wythnos.

Prisons & Probation Ombudsman
Independent Investigations

Mae’r Independent Prisoner Complaint Investigations yn rhan o’r Prisons and Probation Ombudsman.



Mae llawer o garcharorion yn cysylltu â’r Independent Prisoner Complaint Investigations i gael help gyda’u cwynion.



Rydyn ni’n ymchwilio i’r cwynion ac yn penderfynu oes rhywbeth wedi mynd o’i le.



Rydyn ni'n cytuno â dros chwarter y cwynion rydyn ni'n ymchwilio iddyn nhw a bron i hanner y cwynion am eiddo.

Os byddwn ni'n cytuno â’ch cwyn, bydd y carchar yn gallu gwneud y canlynol:




- ymddiheuro



- rhoi arian i chi os ydy eiddo wedi mynd ar goll neu wedi torri




- newid y ffordd mae’r carchar yn gweithio.

# Beth galla' i gwyno amdano?

Gallwch chi ddweud wrth yr Independent Prisoner Complaint Investigations am broblemau yn y carchar fel:




- eiddo sydd wedi mynd ar goll neu wedi torri




- os ydych chi'n meddwl doedd prosesau ddim wedi cael eu dilyn ar gyfer pethau fel dyfarniadau neu gymhellion a breintiau haeddiannol



- cael eich bwlio gan staff




- os ydych chi'n anhapus gyda'r amgylchiadau yn y carchar neu'r drefn



- colli swydd neu gyflog ar gam



- staff yn defnyddio grym mewn ffordd anaddas.




Allwn ni ddim ymchwilio i'ch cwyn os oes mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers i'r carchar roi ateb terfynol i chi.




Os dydyn ni ddim yn gallu helpu gyda'ch cwyn, efallai ein bod ni'n adnabod rhywun sy'n gallu.


# Sut mae cwyno




Rhaid i chi fynd drwy'r broses gwyno yn eich carchar yn gyntaf. Gallwch chi ofyn oes yna Lysgennad IPCI yn eich carchar i roi arweiniad am hyn.




Os ydych chi'n anhapus gydag ateb y carchar i'ch cwyn, llenwch y ffurflen IPCI a dweud pam.





Yna, anfonwch y ffurflen IPCI a chopïau o'ch ffurflenni a'ch atebion COMP atom ni.


# I ble dylech chi anfon eich cwyn



IPCI,
Third Floor,
10 South Colonnade,
London, E14 4PU



Gallwch chi anfon llythyr at yr Independent Prisoner Complaint Investigations am ddim. Bydd y carchar yn talu am bostio.



Anfonwch gopïau o'ch papurau atom ni oherwydd dydyn ni ddim yn gallu eu hanfon nhw'n ôl atoch chi.

Mae'r lluniau'n dod o'r Inspired Easy Read Collection ac ni allwch eu defnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig Inspired Services Publishing Ltd.